**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Hybrid yn Siambr y Cyngor ddydd Mercher, 7 Mehefin 2023.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwr Geraint ap Ifan Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, R Ll Jones, Dafydd Roberts, Robin Williams a Liz Wood |
| **Ymddiheuriadau:** | Cynghorwyr Jackie Lewis ac Alwen Pennant Watkin |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Pip O' Neill (ar gyfer ceisiadau 7.1, 7.2 a 7.3), Douglas Fowlie (ar gyfer cais 7.4) Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) (ar gyfer cais 12.2)<br><br>Cynghorwyr Paul Ellis, Aled M. Jones, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Keith Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Arfon Wyn. |

1:00 y. p. tan 2:55 y. p.

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r Cynghorydd Liz Wood ddatgan diddordeb mewn perthynas â chais 7.4. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cymeradwywyd fel rhai cywir –<br><br>• 3 Mai 2023<br>• 27 Mai 2023(ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd) |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliad safle cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2023 ac fe'u cymeradwywyd fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | 6.1 HHP/2023/51 – Cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdy presennol ynghyd â chodi anecs deulawr yn Lancefield, Ffordd Cynlas, Benllech<br><br>**Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | 7.1 46C427L/COMP – Cyflwyno Cynllun Grwp Cyswllt Cymunedol er mwyn cydymffurfio gyda Thelerau Cytundeb a nodir yn Atodlen 8, Adran 7 a Chynllun Tir Mynediad Cyhoeddus Penrhos fel y nodir yn Atodlen 8, Adran 13.1 y Cytundeb Adran 106 sydd ynghlwm wrth gyfeirnod cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON yn Land and Lakes, Parc Arfordirol Penrhos, Caergybi<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a'r adroddiad gan felly ryddhau rhwymedigaethau'r Cytundeb Adran 106 y mae'n cyfeirio atynt.**<br><br>7.2 COMP/2021/1 – Cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol i ryddhau adrannau; Atodlen 8, Adran 1, Cymal 1.1; Strategaeth Parcio Ceir a Mynediad Cyhoeddus – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Cymal 12.1; Cynllun Coetir Hynafol – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 15, Cymal 15.1; Cynllun Cysylltiadau Gwyrdd – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 17, Cymal 17.1; Cynllun Rheoli SoDdGA – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 19, Cymal 19.1; Arolwg Ecolegol a Chynllun Monitro – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 19, Cymal 19.4; Archwiliad Cydymffurfiaeth Ecolegol – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 20, Cymal 20.1 – Cynllun Rheoli Coed Presennol – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 21, Cymal |

| | |
|---|---|
| | 21.1 – Penodi Gwasanaeth Warden / Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Warden – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 21, Cymal 21.2 – Gwasanaeth Warden, AHNE - Goblygiadau diogelwch / Asesiad monitro effaith Cysylltiadau Gwyrdd a'r defnydd ohonynt – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 8, Adran 21, Cymal 21.3 – Gwasanaeth Warden, AHNE - Ymrwymiad Adroddiad Blynyddol o Effaith – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 9, Adran 3, Cymal 3.1; Cynllun Fesul Cyfnod Pentref Hamdden Penrhos – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos. Atodlen 11, Adran 1, Cymal 1.1; Cynllun Llafur Lleol – Cyfnod Parc Arfordirol Penrhos o oblygiadau'r cytundeb Adran 106 ynghlwm i ganiatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON yn Land and Lakes, Parc Arfordirol Penrhos, Caergybi<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a'r adroddiad gan felly ryddhau rhwymedigaethau'r Cytundeb Adran 106 y mae'n cyfeirio atynt.**<br><br>7.3 S106/2020/3 – Cyflwyno 'Cynllun Iaith Gymraeg Parc Arfordirol Penrhos' o dan Adran 1 (Cynllun Iaith Gymraeg) o atodlen 12 o'r Cytundeb 106 a gwblhawyd mewn cysylltiad â chaniatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON a chyflwyniad Gweithred Amrywio i amrywio darpariaethau canlynol y cytundeb cyfreithiol hwn: paragraffau 2.1.1. Atodlen 8 (Manyleb Canolfan Ymwelwyr a Gwarchodfa Natur Cae Glas), Atodiad 2 Bond Bwrdd Canolfan Ymwelwyr Penrhos (yn cynnwys Toiledau Canolfan Ymwelwyr Penrhos) a'u cynnal a chadw, paragraffau 1.1 a 1.2 Atodlen 12 (Cynllun Iaith Gymraeg) a disodliad Cynllun 2 Lluniad Tir Penrhos – Cynllun 2 cyferinod llunio PL1114.VW008 /Rev 03 dyddiedig 03/03/2016 yn Land and Lakes, Parc Arfordirol Penrhos, Caergybi<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a'r adroddiad sef –**<br><br>• **Bod y Cyngor yn cwblhau'r Weithred Amrywio er mwyn diwygio'r cytundeb cyfreithiol a gwblhawyd ar 19 Ebrill 2016 fel rhan o ganiatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON.**<br>• **Ar ôl cwblhau'r Gweithred Amrywio bod y Cynllun Iaith Gymraeg (Chwefror 2021) yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn belled â'i fod yn cyfeirio at "Dir Mynediad Cyhoeddus Penrhos" fel a ddiffinnir yn y cytundeb cyfreithiol a** |

| | |
|---|---|
| | **gwblhawyd 19 Ebrill 2016.**<br><br>7.4 FPL/2022/256 – Cais Llawn ar gyfer codi 33 o dai fforddiadwy, mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr, adeiladu ffordd newydd i'r stad ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Crown Street, Gwalchmai.<br><br>**Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i wrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | 11.1 HHP/2023/53 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 48 Cae Braenar, Caergybi<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | 12.1 FPL/2023/108 – Cais llawn ar gyfer gosod amryw o ffensys 2.2 medr, 2.9 medr, a 3.2 medr o uchder, gyda giatiau i gyd-fynd yn Ysgol Syr Thomas Jones, Pentrefelin, Amlwch. |

| | |
|---|---|
| | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>12.2 FPL/2023/66 – Cais llawn ar gyfer lleoli 120 o baneli Solar 35.4KW ar dir yn Hen Blas, Bethel, Bodorgan<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |